

## Hysbysiad Preifatrwydd (Ysgolion Cynradd)

### Mae'r categorïau o wybodaeth disgyblion yr ydym yn ei phrosesu yn cynnwys y rhestr (nid hollgynhwysol) ganlynol:

- manylion adnabod personol (megis enw, rhif disgybl unigryw, manylion cyswllt a chyfeiriad)
- nodweddion (megis ethnigrwydd, iaith a hawl i brydau ysgol am ddim)
- gwybodaeth ddiogelu (megis gorchmynion llys a chysylltiadau proffesiynol)
- anghenion addysgol arbennig.
- meddygol a gweinyddol (megis gwybodaeth am feddygon, iechyd plentyn, iechyd deintyddol, alergeddau, meddyginiaeth ac anghenion dietegol)
- presenoldeb (megis sesiynau a fynychwyd, nifer absenoldebau, rhesymau dros absenoldeb ac unrhyw ysgolion blaenorol a fynychwyd)
- asesiadau a chyrrhaeddiad (megis canlyniadau cyfnod allweddol 1 a ffoneg)
- gwybodaeth ymddygiadol (megis gwaharddiadau ac unrhyw ddarpariaeth amgen perthnasol a drefnwyd)
- gwybodaeth am bresenoldeb ar dripiâu ysgol a gweithgareddau (materion diogelwch a risgiau er mwyn cadw disgyblion yn ddiogel, manylion cyswllt mewn argyfwng; perthynas agosaf).
- alergeddau bwyd (ar gyfer arlwyo)

### Sut yr ydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion.

Rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion i'r dibenion canlynol:

- a) i gefnogi dysgu'r disgyblion
- b) i fonitro ac adrodd ynghylch cyrrhaeddiad disgyblion
- c) i ddarparu gofal bugeiliol priodol
- d) i asesu ansawdd ein gwasanaethau
- e) i gadw plant yn ddiogel (alergeddau bwyd neu fanylion cyswllt mewn argyfwng)
- f) i ddiwallu'r dyletswyddau statudol y mae Llywodraeth Cymru wedi eu pennu mewn perthynas â chasglu data
- g) i gyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni a gofalwyr
- h) i alluogi disgyblion i symud o un lleoliad addysgol i un arall yn ddidrafferth

O dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt ar gyfer prosesu gwybodaeth disgyblion yw'r canlynol fel arfer:

- Fel rheolwr data, mae'r Ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a geir i'r dibenion a restrir uchod er mwyn ein galluogi ni i ymgymryd â'r prosesu data sy'n angenrheidiol i gyflawni tasg er budd y cyhoedd, i ymarfer awdurdod statudol neu lle mae arnom ddyletswydd gyfreithiol i brosesu.
- Yn ychwanegol, mewn perthynas ag unrhyw ddata 'categori arbennig', lle mae'r prosesu yn angenrheidiol am resymau budd cyhoedd sylweddol, neu lle rydym wedi cael caniatâd penodol i wneud hynny.

## **Sut yr ydym yn casglu gwybodaeth am ddisgyblion**

Rydym yn casglu gwybodaeth am ddisgyblion drwy ffurflenni derbyn neu gofrestru a gwblheir ar ddechrau'r flwyddyn ysgol; drwy 'ffeiliau trosglwyddo cyffredin', neu drosglwyddiad ffeiliau o ysgol flaenorol.

Mae data disgyblion yn hollbwysig at ddefnydd gweithredol ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth am ddisgyblion yr ydych yn ei rhoi i ni yn orfodol, ond gofynnir i chi roi peth o'r wybodaeth ar sail wirfoddol. Er mwyn cydymffurfio a'r ddeddfwriaeth diogelu data, byddwn yn rhoi gwybod i chi ar adeg ei chasglu a yw'n ofynnol i chi ddarparu gwybodaeth benodol am ddisgyblion neu a oes gennych ddewis yn hynny o beth.

## **Sut yr ydym yn storio gwybodaeth am ddisgyblion**

Rydym yn cadw gwybodaeth disgyblion yn ddiogel am y cyfnod penodol o amser a ddangosir yn ein hamserlen gadw. Mae'n ofynnol i ni gadw rhai mathau penodol o wybodaeth hyd nes y bydd y disgybl yn cyrraedd eu 25ain pen-blwydd.

## **Gyda phwy fyddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth**

Rydym yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda'r canlynol fel mater o drefn:

- ysgolion y bydd y disgyblion yn eu mynychu ar ôl ein gadael ni
- ein hawdurdod lleol
- Llywodraeth Cymru
- GIG / Nyrs Ysgol, naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r awdurdodau ar gyfer rhaglenni imiwneiddio er enghraifft.

## **Pam yr ydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion yn rheolaidd**

Nid ydym yn rhannu gwybodaeth am ein disgyblion gydag unrhyw un heb ganiatâd oni bai fod y gyfraith a'n polisïau yn caniatáu i ni wneud hynny. Ble bo hynny'n briodol rydym yn anelu at fod â Phrotocol Rhannu Gwybodaeth ffurfiol yn ei le ac

rydym wedi ymrwymo i ddatblygu hwn yn unol â'r safonau cenedlaethol a bennwyd gan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI), gweler [www.waspi.org](http://www.waspi.org)

## Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data personol drwy gydol cyfnod disgybl yn yr ysgol gan leoliadau addysgol ac awdurdodau lleol drwy amrywiol dulliau casglu data statudol megis:

- Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC)
- Gwybodaeth am ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu rywle heblaw yn yr ysgol (EOTAS)
- Casgliadau Data Cenedlaethol
- Casgliadau gwybodaeth am bresenoldeb
- Casgliadau gwybodaeth am Brofion Cenedlaethol Cymru
- Casgliadau data ôl 16

Yn ychwanegol at y data a gesglir fel rhan o PLASC, mae Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol hefyd yn derbyn gwybodaeth am asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol; canlyniadau arholiadau cyhoeddus a data presenoldeb ar lefel disgybl unigol a geir gan ysgolion a/ neu gyrff dyfarnu (e.e. CBAC).

Mae'n ofynnol i ni rannu gwybodaeth am ein disgyblion gyda Llywodraeth Cymru naill ai'n uniongyrchol neu drwy ein hawdurdod lleol i ddibenion y casgliadau data hynny sy'n angenrheidiol o dan Reoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011.

Beth yw'r rheswm dros rannu'r data hwn gyda Llywodraeth Cymru?

Mae'r data am ddisgyblion yr ydym yn ei rannu'n gyfreithlon gyda Llywodraeth Cymru drwy gasgliadau data yn:

- cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer faint o gyllid fydd yr ysgol yn ei gael, sy'n cael ei gyfrifo yn seiliedig ar nifer y plant a'u nodweddion ym mhob ysgol.
- yn hysbysu monitro polisiâu addysg 'byr dymor', atebolrwydd yr ysgol ac ymyrraeth (er enghraifft, canlyniadau TGAU ysgolion neu fesurau Cynnydd Disgybl).
- cefnogi ymchwil i, a monitro polisiâu addysg mwy 'hirdymor' (er enghraifft sut y bydd dewis rhai pynciau yn effeithio ar addysg ac enillion y tu hwnt i'r ysgol)

Caiff yr holl ddata ei drosglwyddo'n ddiogel a'i gadw gan Lywodraeth Cymru o dan gyfuniad o reolyddion meddalwedd a chaledwedd.

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan Llywodraeth Cymru: [www.gov.wales](http://www.gov.wales)

## Gofyn am gael mynediad at eich data personol

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gan rieni a disgyblion hawl i ofyn am fynediad at wybodaeth yr ydym yn ei chadw amdanynt. I wneud cais am eich gwybodaeth personol, neu i gael gweld cofnod addysgol eich plentyn, cysylltwch â swyddfa'r ysgol yn uniongyrchol.

Mewn rhai amgylchiadau mae gennych hefyd hawl i:

- wrthwynebu prosesu data personol sy'n debygol o achosi, neu sydd yn achosi, niwed neu ofid.
- atal prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol
- gwrthwynebu gwneud penderfyniadau drwy ddulliau awtomataidd
- dan rai amgylchiadau, gofyn bod data personol anghywir yn cael ei gywiro, ei rwystro, ei ddileu neu ei ddinistrio; a
- yr hawl i geisio iawndal cyfreithiol, naill ai drwy Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth neu drwy'r llysoedd.

Os oes gennych unrhyw bryderon neu gwynion ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn casglu neu'n defnyddio eich data personol, dylech eu codi gyda ni yn y lle cyntaf neu'n uniongyrchol gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn <https://ico.org.uk/concerns>.

### Cysylltu

**Os hoffech drafod unrhyw beth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion drwy'r manylion cyswllt isod:**

Lisa Jones, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol ar [dataprotection@denbighshire.gov.uk](mailto:dataprotection@denbighshire.gov.uk)

Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd  
Cyngor Sir Ddinbych  
Neuadd y Sir  
Rhuthun  
Sir Ddinbych  
LL15 1YN

Ffôn: 01824 706275